Cân y Cristingl

Tôn; Holly and the Ivy

Mae oren y Cristingl
Yn dangos inni'r byd,
A greodd Duw o'i gariad mawr,
A'i gynnal oll i gyd.

Cytgan:
O cenwch gân y Cristingl
A rhowch i Dduw y clod;
Ynddo ef yr ydym oll yn byw
Yn symud ac yn bod.

Mae rhuban y Cristingl
Yn llwyr amgylchu'r byd
Ac yn dangos i ni gariad Crist
A'n prynodd ni mor ddrud.

Cytgan.

Mae ffrwythau y Cristingl
Yn sôn am ofal Duw
O'i law y daw pob lluniaeth da
A'n ceidw oll yn fyw.

Cytgan.

Mae cannwyll y Cristingl
Yn llewyrch mwyn o hyd;
Hon sy'n dangos i ni olau crist-
Ef yw goleuni'r byd.

Cytgan.

Y mae'r Cristingl cyfan
Yn llonni'm llygaid i,
Hwn sy'n arwydd o dosturi Duw
Sy'n dy garu di a fi.

Glyndwr Williams